

## Diolchgarwch

### Darlleniad: Luc 17: 11-19

---

---

Diolchwch i'r Arglwydd! Galwch ar ei enw, gwnewch yn hysbys ei weithredoedd ymysg y bobloedd. Cenwch iddo, moliennwch ef, dywedwch am ei holl ryfeddodau. Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd da yw, ac y mae ei gariad hyd byth. Â chalonnau llawn diolchgarwch y trown atat yn ystod yr oedfa hon. Sylweddolwn mai diolch yn unig yw ein lle, gan i ti, O! Arglwydd, dywallt dy drugaredd arnom. Trwy dy ddwylo di y daw popeth i ni ... mawr yw dy drugaredd.

‘Ar ei drugareddau  
Yr ydym oll yn byw,  
Gan hynny dewch a llawenhewch  
Cans da yw Duw.’

Diolchwn i ti, Arglwydd, am dy roddion ysbrydol; am y fraint o gael galw Duw yn Dad ac Iesu Grist yn Frawd; am rodd o ddiddanydd yn yr Ysbryd Glân; am y maddeuant sy'n cael ei gynnig i bob un trwy aberth Crist ar y Groes; am dy Air sy'n llusern i'n troed a llewyrch i'n llwybr; am agor ffordd i ni gael troi atat mewn gweddi.

Wrth inni ddiolch, O! Arglwydd, rydym yn gorfod cyffesu o'th flaen inni ddibrisio dy roddion yn aml, ein bod yn pechu i'th erbyn drwy beidio â chydabod ein Tad, drwy ailgroeshoelio ein Brawd; drwy ddiystyru grym yr Ysbryd Glân; drwy wrthod derbyn dy aberth ar y Groes; drwy anwybyddu dy Air a llwybrau gweddi.

Arglwydd, maddau inni am fod mor anniolchgar. Arglwydd, trugarha wrthym. Diolch i ti, Arglwydd, am dy roddion tymhorol; am fwyd a dillad; am gartref ac eglwys; am deulu a chyfeillion; am gymdogion a chydabod; am waith ac amser hamdden; am bob tymor yn ei dro.

Helpa ni i werthfawrogi dy roddion ac i gofio'r rhai sydd heb anghenion bywyd - heb gynhaliaeth i gorff; heb do uwch eu pennau; heb gynulleidfa o gydaddolwyr; heb anwyliaid yn agos nac ymhell; heb waith; y rhai hynny sy'n gweld amser yn pwyso'n drwm ar eu hysgwyddau. Cyflwynwn hwy oll i ti, Arglwydd, gan wybod dy fod ti'n gallu cyfarfod angen dyn o ddydd i ddydd. Ond, Arglwydd, dangos i ni pa ran sydd gennyt i ni ei chwarae yn y gwaith o wella safonau bywyd ein brodyr a'n chwiorydd llai ffodus na ni. Mae dy Air yn dweud wrthym:

‘Beth bynnag yr ydych yn ei wneud, ar air neu ar weithred, gwnewch bopeth yn enw yr Arglwydd Iesu, gan roi diolch i Dduw, y Tad, drwyddo ef.’

Cynorthwya ni, O! Arglwydd, i allu rhoi diolch i ti ym mhob sefyllfa. Mae'n anodd ar adegau roi diolch am bob sefyllfa, yn enwedig pan fo'r amgylchiadau'n galed a chymhleth. Ond rwy'ti ti wedi addo yn dy Air:

‘Nid oes un prawf wedi dod ar eich gwarthaf nad yw'n gyffredin i bawb. Mae Duw yn ffyddlon, ac ni fydd ef yn eich gadael i chwi gael eich profi y tu hwnt i'ch gallu; yn wir, gyda'r prawf, fe rydd ef ddihangfa hefyd, a'ch galluogi i ymgynnal dano.’

Diolch i ti, Arglwydd, am yr addewidion sydd yn dy Air. Cynorthwya ni i ymddiried yn llwyr ynot.

‘Diolch i ti am dy Eglwys  
A'i phroffwydi ym mhob oes,  
Gyda'i ffydd a'i sêl diorffwys  
Yn y grym sy 'mhren y groes.’

Diolch am inni deimlo'r ddyled i rod-di clod i ti.  
Cyflwynwn ein gweddïau yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd a'n Gwardwr. Amen.

*Menna Green*